



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2017 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 376A2018-19

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn yn cynnwys John Herniman, Dave Thomas, Terry Lewis, Gareth Lucey a Dave Wilson.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	8
Adran 1: archwilio cyfrifon	9
Rwyf wedi rhoi barn ddiamedod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17	9
Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau	11
Mae dulliau'r Bwrdd Iechyd o arbed yn ei gynorthwyo i wella'r sefyllfa ariannol gyffredinol, ond mae heriau ariannol cynyddol o'i flaen	12
Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir a threfniadau llywodraethu sydd wedi'u hen sefydlu. O'u gwella rhywfaint, bydd y rhain yn ei gynorthwyo i gyflenwi gwasanaethau iechyd gwell yn Ne Ddwyrain Cymru.	14
Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, canfuwyd cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes allweddol	18
Atodiadau	
Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf	26
Atodiad 2 – y ffi archwilio	27
Atodiad 3 – risgiau o bwys wrth archwilio	28

Adroddiad cryno

Crynodeb

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2017. Cwblheais y gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
- 2 Yn fy ngwaith archwilio bûm hefyd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol a'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sydd o flaen y Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae'r adroddiadau ar wahân a luniwyd gennyf yn ystod y flwyddyn yn cynnwys mwy o fanylion am agweddau penodol ar fy ngwaith archwilio. Byddwn yn trafod yr adroddiadau hyn ac yn cytuno â swyddogion ar eu cywirdeb ffeithiol cyn iddynt gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Archwilio. Gellir gweld fy adroddiadau yn [Atodiad 1](#).
- 3 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gennym gerbron y Pwyllgor Archwilio ar 8 Chwefror 2018. Cyflwynir yr adroddiad gerbron y Bwrdd yn un o'i gyfarfodydd dilynol, gan roi copi i bob aelod. Anogaf y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar raddfa ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, byddwn yn darparu'r adroddiad i'r cyhoedd ar [wefan Swyddfa Archwilio Cymru](#).
- 4 Gellir crynhoi fy ngwaith archwilio o dan y penawdau a ganlyn.

Adran 1: archwilio cyfrifon

- 5 Rwyf wedi rhoi barn ddiamed ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17, gan gasglu bod y cyfrifon wedi'u paratoi mewn modd priodol ac yn fanwl gywir ym mhob ffordd berthnasol.
- 6 Yn rhan o'm gwaith, ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd, a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.
- 7 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17, felly cyflawnodd un o'i ddwy ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Mae Adran 2 o'r adroddiad hwn yn cynnwys mwy o fanylion am y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol.

Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

- 8 Yr wyf wedi archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio a rheoli arian, ei drefniadau llywodraethu a sicrwydd, a'i gynnydd o ran y materion i'w gwella a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd. Gwneuthum hyn er mwyn fy modloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau. Rwyf hefyd wedi cynnal adolygiadau

Archwilio Perfformiad o feysydd cyflenwi gwasanaeth penodol. Nodir fy nghasgliadau'n seiliedig ar y gwaith hwn isod.

Mae dulliau'r Bwrdd Iechyd o arbed yn ei gynorthwyo i wella'r sefyllfa ariannol gyffredinol, ond mae heriau ariannol cynyddol o'i flaen

- 9 Dyma'r prif ganfyddiadau o'm hadolygiad o drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol:
- mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o gyflawni canran sylweddol o'i arbedion targed, ond mae'r pwysau parhaus o ran costau a diffyg yn yr arbedion a gyflawnir yn creu heriau ariannol sydd yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd Iechyd i barhau i fantoli'r gyllideb bob blwyddyn;
 - mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu fframwaith mwy systematig er mwyn nodi a datblygu ei gynlluniau arbed ariannol, ond nid yw'r fframwaith hwnnw'n gwbl effeithiol eto; ac
 - mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar waith i fonitro, adrodd a chraffu ar amserlenni arbedion.

Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir a threfniadau llywodraethu sydd wedi'u hen sefydlu. O'u gwella rhywfaint, bydd y rhain yn ei gynorthwyo i gyflenwi gwasanaethau iechyd gwell yn Ne Ddwyrain Cymru

- 10 Dyma'r prif ganfyddiadau o'm hadolygiad o drefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd:
- mae gan y Bwrdd Iechyd nodau uchelgeisiol i ail-lunio gofal iechyd ar draws De Ddwyrain Cymru. Mae ei Gynllun Tymor Canolig ai Strategaeth Dyfodol Clinigol yn tanategu'r nodau hyn; mae'n gweithio'n galed i ddatblygu cynlluniau manwl yn gysylltiedig â gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau a geir eisoes yn yr ysbty.
 - mae'r CTCI cyfredol yn pennu gweledigaeth, gwerthoedd a dulliau gweithio'r Bwrdd Iechyd, a'r blaenoriaethau allweddol o ran cynaliadwyedd a newid gwasanaethau ar gyfer y tair blynedd hyd fis Mawrth 2020. Derbyniodd gymeradwyaeth weinidogol gan Lywodraeth Cymru ar 16 Mehefin 2017 yn unol â gofynion Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a'r dyletswyddau a nodir yn adran 175(2) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.
 - mae strwythur rheoli'r Bwrdd Iechyd wedi'i wasanaethu'n dda hyd yma, ond efallai y bydd angen iddo adolygu'r strwythur hwnnw ymhellach wrth weithredu ei Strategaeth Dyfodol Clinigol.
 - mae strwythurau'r bwrdd a'r pwyllgorau'n gadarn ac wedi'u gweinyddu'n dda.
 - mae'r pwyllgorau'n goruchwyllo risgiau allweddol, ond gallai'r wybodaeth y maent yn ei derbyn eu cefnogi'n well.
 - mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw ei drefniadau ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol yn gwbl effeithiol, ac wedi dechrau adolygu'r trefniadau hynny.

- mae'r rheolaethau mewnol yn effeithiol ar y cyfan o ran bodloni gofynion sicrwydd cyfredol, ond mae angen gwella rhai agweddau ymhellach, gan gynnwys y defnydd o archwiliadau clinigol.
- mae gan y Bwrdd Iechyd seiliau da ar gyfer llywodraethu gwybodaeth, ond wrth iddo baratoi am y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd, bydd hyn yn her o fewn terfynau'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.
- mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli perfformiad yn weithredol a gall ddangos perfformiad cadarnhaol mewn rhai meysydd, er y bydd angen gwella eto er mwyn cyrraedd rhai targedau lleol a chenedlaethol.

Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, canfuwyd cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes allweddol.

11 Dyma brif ganfyddiadau fy adolygiadau archwilio perfformiad a adroddwyd gerbron y Bwrdd Iechyd yn ystod blwyddyn archwilio 2017:

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau i reoli ei adnoddau, ee, asedau, y gweithlu a thechnoleg gwybodaeth, ond bydd angen datblygu'r rhain ymhellach i gefnogi'r broses o gyflawni amcanion corfforaethol.
- **Radioleg** – mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu risgiau o ran bodloni'r galw cyfredol a'r galw yn y dyfodol am wasanaethau radioleg oherwydd heriau staffio, ôl-groniadau cynyddol o ran amseroedd aros a diffyg cysondeb wrth ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid.
- **Gwasanaethau Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau** – drwy fy ngwaith, gwelais fod y Bwrdd Iechyd yng nghyfnod cynnar cynllun hirdymor i wella cynaliadwyedd ac arweinyddiaeth gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau. Mae lle o hyd i wella perfformiad yn erbyn amryw o dargedau, a chysondeb gwybodaeth gyfeirio practisau meddyg teulu ynghylch y gwasanaeth y tu allan i oriau.
- **Cynllunio i Ryddhau Cleifion** – mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau datblygedig ar gyfer gwella cynllunio i ryddhau cleifion, ond mae'r perfformiad yn amrywio ac mae lle i wella'r polisi, y llwybrau a'r hyfforddiant rhyddhau cleifion.
- **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** – rwyf wedi olrhain cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adolygiad dilynol cyfunol 2015 o'r Archwiliadau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Canfu'r gwaith hwn fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd mewn rhai meysydd, ond bod angen iddo gyflwyno gwelliannau pellach fel sicrhau cymeradwyaeth y Bwrdd a chyllid ar gyfer Rhaglen Amlinellol Strategol Gwybodeg 2016-21, gwella cywirdeb gwybodaeth a phrofi cynlluniau parhad busnes adrannol.
- **Gwaith Dilynol ar Gleifion Allanol** – o ran apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, cefais fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn ein adroddiad yn 2015, ond bod angen iddo wella ei ddull o adnabod risgiau clinigol o hyd, cyflymu'r broses o wella gwasanaethau a rheol materion sy'n dod i'r amlwg mewn gwasanaethau penodol.

- **Cynllunio'r Gweithlu** – cesglais fod bylchau yn ymagwedd y Bwrdd Iechyd at gynllunio'r gweithlu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod angen iddo wella'i drefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu, ac mae wedi dechrau gwneud hynny. Fodd bynnag, mae angen cyflymu'r gwaith hwn er mwyn sicrhau bod y sefydliad mewn sefyllfa dda i wynebu heriau cyfredol a heriau'r dyfodol o ran y gweithlu.
- **Bu trefniadau comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans Argyfwng** o gymorth i ysgogi rhai newidiadau pwysig o ran y gwasanaethau ambiwlans argyfwng yng Nghymru; wrth i'r trefniadau aeddfedu, fodd bynnag, mae angen mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid.
- **Nid yw trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus** lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent.

12 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad hwn.

Adroddiad manwl

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 13 Yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd, nodir prif ganfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2017.
- 14 Yr wyf yn cyflawni fy ngwaith yn yr Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodir yn Neddf 2004¹. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
 - fy modloni fy hun bod y gwariant a'r incwm a drafodir yn y cyfrifon wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd, ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli;
 - a'm bodloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
- 15 Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, drwy ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
 - gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliai'r trefniadau ar gyfer rheoli ariannol, llywodraethu a sicrwydd;
 - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
 - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bônt yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
 - gwaith arall, megis ymarferion paru data yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).
- 16 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, y ceir rhestr ohonynt yn [Atodiad 1](#).
- 17 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
- adran 1: archwilio cyfrifon
 - adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau
- 18 [Yn Atodiad 2](#) dangosir yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am y gost wirioneddol o gyflawni fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2017.
- 19 I gloi, nodir yn [Atodiad 3](#) y prif risgiau archwilio ariannol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2017, a'r modd yr ymdriniwyd â'r risgiau hynny drwy'r archwiliad.

¹ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Adran 1: archwilio cyfrifon

- 20 Yn yr adran hon o'r adroddiad ceir crynodeb o ganfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lif arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol wrth ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod mewn modd priodol.
- 21 Wrth ystyried datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi fy marn ynglŷn â'r canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
 - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill, ac yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
 - a yw'r rhan honno sydd i'w harchwilio o'r adroddiad ar daliadau wedi'i pharatoi'n briodol;
 - a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel arfer) yn gyson â'r datganiadau; a
 - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.
- 22 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

Rwyf wedi rhoi barn ddiamed ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17

- 23 Rhoddais farn ddiamed ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17, gan gasglu eu bod wedi'u paratoi mewn modd priodol ac yn fanwl gywir ym mhob ffordd berthnasol. Yn rhan o'm gwaith, ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd, a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.
- 24 Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau yn ystod yr archwiliad. Darparwyd gwybodaeth ddefnyddiol i ni yn brydlon, ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith. Paratôdd y Tîm Cyllid gynllun cau manwl a oedd yn ymgorffori ein gofynion archwilio a manylion y papurau ategol. Roedd yr ymagwedd hon yn parhau i gryfhau'r broses o gynhyrchu'r datganiadau ariannol ac o gymorth i fodloni'r amserlen dynn ar gyfer clirio. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'r Bwrdd Iechyd i adolygu'r broses a mireinio'r gweithdrefnau a'n hymagwedd archwilio er mwyn sicrhau gwelliant ac effeithlonrwydd parhaus.
- 25 Cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon, y mae'n ofynnol i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol adroddiad ar y materion hyn gerbron Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 30 Mai 2017. Ceir crynodeb yn **Nangosyn 1** o'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Dangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mae'r tabl a ganlyn yn cynnwys crynodeb o'r prif faterion a nodwyd, a sylwadau arnynt.

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Camddatganiadau nas cywirwyd	<p>Nid oedd y datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro, oherwydd byddai'r rheolwyr yn eu cywiro wrth iddynt ddod i'r amlwg.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd yn rhannu risgiau ariannol yn gysylltiedig â Phwyllgor Gwasanaethau Arbenigol lechyd Cymru â holl fyrddau lechyd Cymru. Wrth archwilio gwybodaeth ariannol, ni welwyd bod angen diwygio unrhyw ran o ddatganiadau ariannol y Bwrdd lechyd.</p>
Arferion Cyfrifyddu ac Adroddiadau Ariannol	<p>Fel y datganwyd yn nodyn 7 y cyfrifon, cyrhaeddodd y Bwrdd lechyd darged Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Taliadau'r Sector Cyhoeddus, sef talu 95% o gredydwyr y tu allan i'r GIG o fewn 30 diwrnod. Talwyd 96.4% o filiau o fewn y targed hwn.</p> <p>Fel y llynedd, mae'n bosib bod perfformiad y Bwrdd lechyd wedi'i gamddatgan oherwydd y modd yr adroddir ar anfonebau sydd 'yn destun anghydfod'. Ystyrir bod yr holl anfonebau hynny wedi'u talu o fewn 30 diwrnod, p'un a ydynt wedi'u talu o fewn y cyfnod hwnnw ai peidio. Gallai'r perfformiad felly fod wedi'i orddatgan. Pe na bai yr un anfoneb sydd 'yn destun anghydfod' wedi'i thalu o fewn 30 diwrnod, byddai'r perfformiad a adroddwyd wedi gostwng i 91.5% (gostyngiad o 4.9%). Esboniwyd bod biliau'n cael eu talu gyda'r gyfres nesaf o daliadau ar ôl datrys unrhyw anghydfod, felly mae'n debygol iawn fod mwyafrif yr anfonebau hynny wedi'u talu o fewn 30 diwrnod.</p>
Materion Eraill	<p>Nid oedd unrhyw faterion eraill o bwys yr oedd angen adrodd arnynt fu'n destun trafodaeth neu a oedd wedi'u cynnwys mewn gohebiaeth â'r rheolwyr.</p> <p>Nid oedd angen adrodd ar unrhyw faterion a oedd yn berthnasol i'r oruchwyliaeth ar y broses adrodd ariannol.</p> <p>Nid oedd angen cyfathrebu ynghylch unrhyw faterion eraill a oedd yn ofynnol yn ôl safonau archwilio.</p>

- 26 Yn rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais hefyd adolygiad o'r ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd lechyd ar 31 Mawrth 2017, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- 27 Cwblhawyd fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol cronfeydd elusennol a ddelir mewn ymddiriedaeth yn ystod mis Medi/Hydref 2017, a rhoddais farn archwilio ddiamod ar 6 Rhagfyr 2017. Cyn rhoi fy marn archwilio, y mae'n ofynnol i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu, ac ystyriwyd fy adroddiad gan y Bwrdd lechyd ar 22 Tachwedd 2017. Nid oedd unrhyw faterion o bwys i'w hadrodd.

Wrth gyflawni fy ngwaith, ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd

28 Bûm yn adolygu rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd a ystyriwyd yn berthnasol gennyf i'r archwiliad, i'm helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risgiau'n gysylltiedig â chamddatganiadau o bwys yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni roddais ystyriaeth iddynt er mwyn cyfleu barn ynghylch effeithiolrwydd wrth weithredu rheolaethau mewnol. Ni chefais hyd i unrhyw ddiffygion o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd.

Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

29 Y mae gofyniad statudol arnaf i'm bodloni fy hun fod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus. Cyflawnais amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- adolygu cynlluniau a chyflawniad y Bwrdd Iechyd o ran arbedion ariannol, a'r modd y cyfrannodd hynny at fantoli'r cyfrifon;
- asesu pa mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu a sicrwydd Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith asesu strwythuredig, gan gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin â'r argymhellion a wnaed yn asesiad strwythuredig y llynedd;
- asesu gwaith paru data yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI);
- gwaith penodol ar ddefnydd o adnoddau yn y gwasanaethau radioleg, y gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau, wrth gynllunio i ryddhau cleifion, a throsolwg diagnostig lleol o gynllunio'r gweithlu; ac
- asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed mewn gwaith archwilio blaenorol ar reoli apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, yr adolygiad o Dechnoleg Gwybodaeth a Cyfathrebu ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol.

30 Yr wyf hefyd wedi cyflawni gwaith archwilio perfformiad sy'n edrych ar drefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Argyfwng, a hefyd y trefniadau cydweithredu rhwng timau iechyd cyhoeddus lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

31 Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r gwaith y cyfeirir ato uchod o dan y penawdau canlynol.

Mae dulliau'r Bwrdd lechyd o arbed yn ei gynorthwyo i wella'r sefyllfa ariannol gyffredinol, ond mae heriau ariannol cynyddol o'i flaen

- 32 Yn ogystal â gwneud sylwadau am sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd lechyd, yn rhan o'm gwaith asesu strwythuredig yn 2017, ystyriais y camau y mae'r Bwrdd lechyd yn eu cymryd i fantoli'r cyfrifon a chreu cynaliadwyedd ariannol ar gyfer y tymor hwy. Rwyf wedi asesu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad. Ceir crynodeb o'm canfyddiadau isod.

Mae gan y Bwrdd lechyd hanes o gyflawni canran sylweddol o'i arbedion targed, ond mae'r pwysau parhaus o ran costau a diffyg yn yr arbedion a gyflawnir yn creu heriau ariannol sydd yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd lechyd i barhau i fantoli'r gyllideb bob blwyddyn

- 33 Er bod gan y Bwrdd lechyd hanes o gyflawni canran sylweddol o'r holl arbedion a gynllunnir ganddo, maen dibynnu ar gyllid anghylchol ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni ei ofyniad statudol i fantoli'r gyllideb, ac er mwyn helpu i fodloni cynnydd yn y galw, ee, 'pwysau'r gaeaf'.
- 34 Ni fu lefel yr arbedion yn ddigonol er mwyn ymateb i dwf mewn costau, a chanlyniad hynny yw diffyg sylfaenol sydd yn gwaethygu o hyd. Yn 2016-17, cyflawnodd y Bwrdd lechyd arbedion o £15.2 miliwn ac enillion cyfrifyddu o £2 filiwn yn erbyn targed o £21.5 miliwn. Roedd hyn yn creu diffyg o £4.3 miliwn, a effeithiodd wedyn ar flwyddyn ariannol 2017-18. Mae'r diffyg hwn, ynghyd â phwysau ychwanegol o ran costau wedi cynyddu'r diffyg sylfaenol ar gyfer 2017-18 o £12.8 miliwn (fel yr adroddwyd yn CTCI 2016-19) i £22.75 miliwn (fel yr adroddwyd yn CTCI 2017-20).
- 35 Llwyddodd y Bwrdd lechyd i glirio'i gostau yn 2016-17, ac mae'n rhagweld y bydd yn llwyddo i wneud hynny eto yn 2017-18. Fodd bynnag, mae'r diffyg yn gwaethygu sydd yn golygu bod y Bwrdd lechyd yn wynebu her ariannol fawr o ran cyflawni ei ddyletswydd ariannol i glirio'i gostau dros gyfnod treigl o dair blynedd. Er bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhywfaint o gyllid blynyddol ychwanegol, mae'r Bwrdd lechyd dan bwysau i ganfod mwy o arbedion cylchol yn y blynyddoedd nesaf.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi gweithredu fframwaith mwy systematig er mwyn nodi a datblygu ei gynlluniau arbed ariannol, ond nid yw'r fframwaith hwnnw'n gwbl effeithiol eto

- 36 Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwella'r modd y mae'n canfod cyfleoedd i arbed, ac yn ymgysylltu ar draws adrannau. Tua diwedd 2016-17, cydnabu'r Bwrdd lechyd y byddai'r broses yn elwa ar ymglymiad mwy corfforaethol. Mewn ymateb i hynny, cafodd proses gynllunio 2017-18 ei harwain mewn modd corfforaethol, gan sefydlu cofrestr o feysydd arbed posib. Roedd y gofrestr yn seiliedig ar ddadansoddiad corfforaethol o ddata ar berfformiad, gan gynnwys gwaith meincnodi, dadansoddi amrywio a sganio'r gorwel. Mae hyn wedi gwneud y broses yn fwy effeithlon gan roi fframwaith i ddeiliaid cyllideb iddynt weithio a datblygu cynlluniau arbed unigol.
- 37 Mae'r Bwrdd lechyd wedi ceisio canolbwyntio ar gynlluniau arbed sydd yn creu arbedion cylchol, ac mae 91% o'i gynlluniau ar gyfer 2016-17 wedi esgor ar arbedion o'r fath. Fodd bynnag, sylwn fod cyfran y cynlluniau arbed cylchol ar gyfer 2017-18 wedi gostwng i 55%. Yng

nghyd-destun diffyg a allai waethygu, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni digon o arbedion cylchol, ac nid yw'n canfod cyfleoedd i drawsnewid ar raddfa fwy. Ffocws ei gynllun ariannol yw rhyddhau arbedion i'w hail-fuddsoddi mewn gofal allan o'r ysbyty ac osgoi twf mewn costau yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd ar ganol adeiladu Ysbyty Athrofaol y Grange, ac yn ystyried bod y cynllun hwnnw'n cyflawni trawsnewidiadau y mae angen mawr amdanynt. Serch hynny, ni ddisgwylir i'r ysbyty hwn fod yn weithredol a dechrau creu arbedion tan ddechrau 2021.

Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar waith i fonitro, adrodd a chraffu ar amserlenni arbed.

- 38 Mae gan y Bwrdd Iechyd strwythur da ar waith i fonitro cynlluniau arbed ar bob lefel o fewn y sefydliad, ond mae lefel y manylion sydd ar gael i reolwyr gweithredol, aelodau gweithredol ac aelodau annibynnol yn amrywio.
- 39 Ar lefel weithredol, mae cyfarfodydd o fewn y Bwrdd Iechyd wedi'u hen sefydlu, gan gynnwys cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Meddyginiaethau a Sicrwydd Is-adrannol. Yn y cyfarfodydd hyn, cynhelir trafodaethau manwl ar adroddiadau cynlluniau arbed pob is-adran. Mae hyn yn creu fforwm cadarn er mwyn craffu ar berfformiad pob cynllun, a chanfod yn fuan unrhyw gynlluniau sy'n tangyflawni ac sydd angen eu hunioni.
- 40 Ar lefel gorfforaethol, cyflwynir Adroddiadau Cyllid i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd sy'n cynnwys adran ar berfformiad arbedion a dadansoddiad o berfformiad cynlluniau arbed, ynghyd â sgoriau risg. Mae'r manylion a ddarperir i Swyddogion Gweithredol ac Aelodau Annibynnol yn y cyfarfodydd hyn ar lefel strategol oruchwyliol, gan arddangos penawdau is-adrannol neu drawsbynciol yn aml. Mae'r lefel hon o wybodaeth yn ddigonol i gyflawni dyletswydd gyffredinol i oruchwylio effaith arbedion ariannol, ond nid yw'n ddigonol i alluogi Aelodau i graffu ymhellach ar danberfformiad cynlluniau arbed unigol, nac i argymhell camau i ymdrin â'r tanberfformiad hwnnw.

Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir a threfniadau llywodraethu sydd wedi'u hen sefydlu. O'u gwella rhywfaint, bydd y rhain yn ei gynorthwyo i gyflenwi gwasanaethau iechyd gwell yn Ne Ddwyrain Cymru.

- 41 Yn rhan o'm gwaith ar yr asesiad strwythuredig bûm yn asesu trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd. Roedd hyn yn cynnwys effeithiolrwydd y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed er mwyn ymateb i argymhellion mewn asesiadau strwythuredig blaenorol. Nodir fy nghanfyddiadau isod

Mae gan y Bwrdd Iechyd nodau uchelgeisiol i ail-lunio gofal iechyd ar draws De Ddwyrain Cymru. Mae ei Gynllun Tymor Canolig a'i Strategaeth Dyfodol Clinigol yn tanategu'r nodau hyn; mae'n gweithio'n galed i ddatblygu cynlluniau manwl yn gysylltiedig â gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau a geir eisoes yn yr ysbyty

- 42 Mae gan y Bwrdd Iechyd nodau uchelgeisiol i ail-lunio gofal iechyd ar draws De Ddwyrain Cymru. Mae ei Gynllun Tymor Canolig a'i Strategaeth Dyfodol Clinigol yn tanategu'r nodau hyn. Mae hyn yn gryn newid, a bydd y Bwrdd Iechyd yn ei gyflwyno'n raddol dros y pedair blynedd hyd at agor y Ganolfan Gofal Critigol Arbenigol - Ysbyty Athrofaol y Grange yn fuan yn 2021. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n galed i ddatblygu cynlluniau manwl yn gysylltiedig â gofal sylfaenol a chymunedol a gwasanaethau ysbyty presennol.

Mae strwythur rheoli'r Bwrdd Iechyd wedi'i wasanaethu'n dda hyd yma, ond efallai Y bydd angen iddo adolygu'r strwythur hwnnw ymhellach wrth weithredu ei Strategaeth Dyfodol Clinigol

- 43 Ers sefydlu'r Bwrdd Iechyd yn 2009, mae'r strwythur wedi ysgwyddo heriau fel effaith technoleg newydd, cynnydd yn y galw, newid mewn triniaethau, datblygu gwasanaethau cymunedol a newidiadau i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu adolygiadau o drefniadau atebolrwydd ar draws is-adrannau, ac oddi mewn iddynt, sy'n dangos bod atebolrwydd yn glir drwy'r sefydliad ar y cyfan. Fodd bynnag, er bod cyfrifoldebau wedi'u dyrannu yn ôl y gyfatebiaeth fwyaf addas o fewn y strwythur rheoli, mae cwmpas rheolaeth rhai o'r swyddogion yn sylweddol ac yn anghynaliadwy o bosib. Mae'n bwysig felly, wrth i'r Bwrdd Iechyd baratoi i gyflenwi gofal iechyd mewn modd gwahanol drwy ei Strategaeth Dyfodol Clinigol, fod ganddo sicrwydd ynghylch addasrwydd y strwythur rheoli i'r dyfodol.

Mae strwythurau'r bwrdd a'r pwyllgorau'n gadarn ac wedi'u gweinyddu'n dda

- 44 Gwelsom berthnasoddd da a threfniadau da i gydgyssylltu agendâu rhwng pwyllgorau a'r Bwrdd. Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd adolygiad o bwyllgorau a'u haelodaeth ym mis Mai a mis Medi 2017 er mwyn ystyried y newidiadau o ran aelodau annibynnol. Nodwyd bod agendâu, adroddiadau cyflwyno a gwybodaeth ategol weithiau'n rhy hirwyntog ac yn aml yn ymestyn i gannoedd o dudalennau. Wrth i Aelodau Annibynnol newydd ymgartrefu i'w rolau newydd, mae'n bwysig iddynt dderbyn gwybodaeth berthnasol a rhywfaint o'r cyd-destun, a bod gwybodaeth bwysig yn

cael ei hamlygu i gefnogi craffu effeithiol a phroses benderfynu ddeallus. Rydym yn ymwybodol bod y Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio i wella ei ymagwedd a'i fod yn parhau i wneud hynny.

- 45 Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o gynnal ei fusnes mewn modd agored a didwyll. Bydd busnes y Bwrdd a'i bwyllgorau gan amlaf yn cael ei gynnal yn rhan agored y cyfarfodydd, lle caiff aelodau o'r cyhoedd fod yn bresennol. Gall rhai adroddiadau weithiau gynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif, ac ystyrir y rhain yn sesiwn 'pwyllgor mewnol' gaeedig y cyfarfod.
- 46 Mae'r Bwrdd Iechyd ar ganol ymdrin â'r argymhellion a wnaed y llynedd ynghylch llywodraethu a sicrwydd. O ran sicrwydd ac effeithiolrwydd y bwrdd, nid yw'r camau wedi'u cwblhau. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi llunio fframwaith sicrwydd bwrdd ysgrifenedig gan ddewis peidio mynd rhagddo i wneud hynny nes bo'r Cadeirydd a'r aelodau Bwrdd newydd wedi'u penodi. Fodd bynnag, y mae wedi dechrau ymdrin ag anghenion datblygu aelodau newydd o'r Bwrdd drwy Raglen Ddatblygu'r Bwrdd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw ei drefniadau rheoli risgiau corfforaethol yn gwbl effeithiol, ac wedi dechrau adolygu'r trefniadau hynny.

- 47 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw ei drefniadau rheoli risgiau corfforaethol yn gwbl effeithiol, ac wedi dechrau adolygu'r trefniadau hynny. Yn ystod 2017, derbyniodd y Bwrdd a'i bwyllgorau adroddiadau ac asesiadau risg rheolaidd er gwybodaeth. Fodd bynnag, er bod y cofrestrau risg yn cynnwys sgôr risg a champau lliniaru cynlluniedig, nid oedd yn eglur sut y byddai'r camau lliniaru yn lleihau sgôr y risg asesedig, ac roedd sgôr rhai o'r risgiau wedi aros yr un peth am sawl blwyddyn, gan ddangos nad oedd camau lliniaru yn cael rhyw lawer o effaith os o gwbl. Cynhaliodd y Tîm Gweithredol weithdy ym mis Hydref 2017 wedi'i hwyluso gan Gydwasaethau'r GIG a'i Wasanaeth Archwilio Mewnol i ddechrau'r broses o resymoli ac ailweithio ymagwedd y Bwrdd Iechyd at reoli risg ac adrodd ar hynny. Gwelwyd bod sgoriau risg yn y 'Dangosfwrdd Risg' newydd a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd 2017 wedi'u diwygio, a bod rhesymoli ac ailddatblygu wedi'u nodi o hyd yn 'waith ar y gweill'.

Mae'r rheolaethau mewnol yn effeithiol ar y cyfan o ran bodloni gofynion sicrwydd cyfredol, ond mae angen gwella rhai agweddau ymhellach, gan gynnwys y defnydd o archwiliadau clinigol

- 48 Mae rheolaethau mewnol yn effeithiol ar y cyfan o fewn y Bwrdd Iechyd, ond gellid gwella hyn mewn rhai meysydd. Caiff yr holl adroddiadau mewnol ac allanol ac adroddiadau'r Gwasanaethau Atal Twyll eu cyflwyno er ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio, a phwyllgorau eraill lle bo'n briodol Bydd pwyllgorau'n gofyn am adroddiadau dilynol neu'n cyfeirio materion i sylw pwyllgorau eraill neu'r Bwrdd os ydynt yn ystyried bod hynny'n briodol. Mae angen cryfhau'r trefniadau i gael sicrwydd yn sgil archwiliadau clinigol drwy wella gwaith cynllunio ar archwilio clinigol lleol, a thrwy gyflwyno adroddiadau sicrwydd gerbron y pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion.

Mae gan y Bwrdd Iechyd seiliau da ar gyfer llywodraethu gwybodaeth, ond wrth iddo baratoi am y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd, bydd hyn yn her o fewn terfynau'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd

- 49 Cwblhaodd y Bwrdd Iechyd hunanasesiad Cyfrinachedd Gwybodaeth Caldicott ym mis Ebrill 2017, gan gasglu ei fod yn cydymffurfio ar gyfradd o 89%. Y mae wedi nodi camau gwella Caldicott a llywodraethu gwybodaeth sydd ar y gweill yn 2017-18.
- 50 Roedd perfformiad y Bwrdd Iechyd yn 2016-17 o ran ymateb i geisiadau am wybodaeth o fewn y terfyn amser gofynnol yn cyrraedd 84% o ran ceisiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac yn 96% o ran ceisiadau mynediad at destunau Diogelu Data, a hynny'n erbyn targed cenedlaethol o 90%.
- 51 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth cyn gweithredu Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) 2018, ond mae'n bosibl y bydd bodloni gofynion y RhDDC yn effeithiol yn creu goblygiadau o ran adnoddau. Bydd angen iddo sicrhau ei fod yn ateb ceisiadau statudol am fynediad at wybodaeth yn brydlon, y disgwylir iddynt gynyddu ar ôl gweithredu'r RhDDC.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli perfformiad yn weithredol a gall ddangos perfformiad cadarnhaol mewn rhai meysydd, er y bydd angen gwella eto er mwyn cyrraedd rhai targedau lleol a chenedlaethol.

- 52 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro perfformiad yn rheolaidd ac wedi gwella ei brosesau ers ein Hasesiad Strwythuredig diwethaf. O fewn is-adrannau, mae'r Bwrdd Iechyd yn dwyn rheolwyr i gyfrif am sicrhau perfformiad gwell, ac mae'r Tîm Gweithredol yn cadw golwg strategol ar y sefyllfa ac yn cynnig her bellach.
- 53 Ar sail ei ddata perfformiad canol blwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella rhai meysydd allweddol, ee nifer y cleifion sy'n disgwyl dros wyth wythnos am brofion diagnostig a nifer yr apwyntiadau dilynol i gleifion allanol sydd wedi mynd heibio'u dyddiad targed. Nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd y targed a gynlluniwyd ganddo o ran perfformiad mewn meysydd eraill fel amseroedd aros adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Dangosai adroddiad Perfformiad Integredig 2il Chwarter 2017-18 nad oedd y Bwrdd Iechyd yn llwyddo i gyrraedd 35% o'r targedau lleol a chenedlaethol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r fenter twyll cenedlaethol (NFI) er mwyn canfod achosion o dwyll a gordalu

- 54 Ymarfer paru data dwyflynyddol yw'r NFI sydd o gymorth i ganfod achosion o dwyll a gordalu. Gwneir hynny drwy baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau neu drafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n ddull hynod effeithiol o ganfod ac atal twyll a gordaliadau, ac o helpu sefydliadau i atgyfnerthu eu trefniadau ar gyfer atal twyll a llygredd.
- 55 Cyflwynodd cyrff sy'n cymryd rhan yn y fenter ddata i ymarfer paru data cyfredol yr NFI ym mis Hydref 2016. Rhyddhawyd y canlyniadau i'r cyrff hynny ym mis Ionawr 2017.
- 56 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn yr NFI, ac mae'n orfodol iddo wneud hynny. Ym mis Ionawr 2017, derbyniodd y Bwrdd Iechyd barau data drwy raglen we'r NFI. Mae parau data yn amlygu anghysondebau a all fod o gymorth i ganfod gwallau ac achosion o dwyll wrth eu hadolygu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran adolygu'r data a gaiff eu paru. Ni chanfuwyd unrhyw achosion o dwyll yn sgil yr adolygiad a gynhaliwyd, ac mae hynny'n rhoi sicrwydd bod trefniadau atal twyll y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, sylwn nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r parau data yn adroddiadau paru data NFI 750 a 752. Mae'r adroddiadau hyn yn paru data cyflogres, taliadau credydwyr a Thŷ'r Cwmnïau, a gallant helpu i ganfod buddiannau nad yw'r staff wedi'u datgelu, a thwyll wrth gaffael. Argymhellwn felly y dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r parau data hyn fel mater o frys.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau ymdrin â'r materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd, yn enwedig o ran cefnogi'r broses o gyflwyno newid yn effeithiol.

- 57 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth ymateb i'r argymhellion yng ngwaith asesu strwythuredig y llynedd. Gwnaethom bum argymhelliad yn gysylltiedig â chyflwyno newid yn effeithiol ac ynghylch sicrwydd ac effeithiolrwydd y Bwrdd.
- 58 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio capasiti ychwanegol i gefnogi'r broses o reoli newid, wedi datblygu trefniant Bwrdd Cyflawni ar gyfer y Strategaeth Dyfodol Clinigol, ac mae Tîm Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan (TGPAB) yn parhau i archwilio cyfleoedd i reoli newid. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dull safonol o reoli newid hyd yma.
- 59 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i ymdrin ag argymhellion a chyfleoedd gwella o'm hasesiad strwythuredig yn 2016, bûm hefyd yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i'm hargymhellion archwilio. Canfûm fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar waith i gadw golwg ar fy argymhellion i yn ogystal ag argymhellion archwilwyr mewnol

Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, canfuwyd cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes allweddol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau i reoli ei adnoddau, ee, asedau, y gweithlu a thechnoleg gwybodaeth, ond bydd angen datblygu'r rhain ymhellach i gefnogi'r broses o gyflawni amcanion corfforaethol

60 Yn rhan o'm gwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, adolygwyd y modd y rheolir ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Ceir crynodeb o'm prif ganfyddiadau yn [Nangosyn 2](#).

Dangosyn 2: prif ganfyddiadau ynghylch ffactorau galluogi defnydd o adnoddau o'r asesiad strwythuredig

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Y gallu i reoli newid	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau i gefnogi gwelliannau i wasanaethau, ac mae'n adeiladu ei raglen a'i gapasiti rheoli newid er mwyn cyflawni'r Strategaeth Dyfodol Clinigol.</p> <p>Nid oes gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd gorfforaethol at reoli newid, ond ym mis Mawrth 2017 bu'n diwygio ei Becyn Cymorth ar gyfer Arwain a Rheoli Newid o fewn y Gweithlu, a ddatblygwyd yn wreiddiol yn 2014. Y mae wedi recriwtio capasiti ychwanegol i reoli newid a rhaglenni, ac wedi sefydlu trefniadau rheoli newid fel bwrdd cyflawni wedi'i gefnogi gan chwe ffrwd waith i reoli gweithrediad y Strategaeth Dyfodol Clinigol.</p>
Ystadau ac asedau	<p>Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun ystadau nac arolygon cyfredol o gyflwr ei adeiladau. Ni cheir felly reolaeth strategol ar y penderfyniadau ynghylch caffael, cynnal a gwaredu ei ystadau. Er hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella ei reolaeth ar ystadau, ac yn ddiweddar derbyniodd ganlyniadau ei arolwg 'chwe ffased'. Y mae'n rhagweld y bydd yr arolwg hwnnw'n gwella cywirdeb yr arolygon cyflwr, yn cefnogi'r gwaith o gwblhau'r strategaeth ystadau yn derfynol, ac yn helpu i dargedu gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni o fewn yr ystâd bresennol.</p>

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Gweithio mewn partneriaeth	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol drwy ei Rwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth a thrwy ymgysylltu, er enghraifft, â'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus. Fe'i cynrychiolir hefyd gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Gofalwyr, Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Oedolion ag Anghenion Cymhleth. Cyflwynir y newyddion diweddaraf yn rheolaidd gerbron ei Bwyllgor ar gyfer y Cyhoedd, Partneriaethau a Llesiant wrth i drefniadau partneriaeth barhau i ddatblygu.
TGCh a'r defnydd o dechnoleg	Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau parhaus yn gysylltiedig â chyflenwi ac ariannu gwasanaethau technoleg gwybodaeth. Y mae wedi datblygu Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) Gwybodeg ar gyfer 2016-21 a Chynllun Gwybodeg Tymor Canolig ar gyfer 2017-20, sy'n pennu'r amcanion a'r blaenoriaethau o ran gwybodeg dros y tair blynedd nesaf. Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau parhaus fel bygythiad parhaus ymosodiad seiberddiogelwch, yr angen i uwchraddio heb pwyntiau mynediad di-wifr, a gosod systemau gweithredu newydd yn lle rhai hŷn nas cynhelir mwyach.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu risgiau o ran bodloni'r galw cyfredol a'r galw yn y dyfodol am wasanaethau radioleg oherwydd heriau staffio, ôl-groniadau cynyddol yn gysylltiedig ag amseroedd aros a threfniadau anghyson i ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid

- 61 Yn fy ngwaith ar wasanaethau radioleg, gwelais fod mynediad at wasanaethau radioleg yn ystod oriau arferol, a'r prosesau ar gyfer dysgu yn sgil digwyddiadau a chwynion yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mae angen gwella amseroedd aros a'r trefniadau ar gyfer adrodd yr amser a gymerir i gwblhau'r ymdriniaeth. Mae gan gleifion fynediad priodol at wasanaethau radioleg o fewn oriau arferol, a mynediad cyfyngedig at wasanaethau y tu allan i oriau, ond nid yw'r drefn ar gyfer blaenoriaethu atgyfeiriadau yn gyson bob amser.
- 62 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyrraedd targedau amseroedd aros, ac fe geir pryderon neilltuol ynghylch gwasanaethau sganio MRI ac uwchsain; nid yw'n cyrraedd targedau amser delweddu, mae'r amseroedd cwblhau hwyaf yn sylweddol ar draws y dulliau, a byddai defnydd helaethach o radiograffwyr adrodd a chaffael yn allanol o fudd i'r gwasanaeth; cynhelir archwiliad clinigol rheolaidd a rhagweithiol o'r gwasanaeth, ond ni cheir dealltwriaeth eang o'r rhaglen archwilio glinigol ymhlith y staff.
- 63 Mae gan y gwasanaeth brosesau clir er mwyn ymchwilio i gwynion, ond nid yw ei broses ar gyfer casglu ac arddangos y gwersi a ddysgwyd yn sgil profiadau ehangach cleifion wedi'i datblygu'n llawn.

- 64 Mae'r heriau o ran staff yn golygu bod gan y Bwrdd Iechyd lai fyth o allu i reoli'r galw cynyddol am y gwasanaeth. Mae'n monitro ac yn ceisio rheoli'r galw am wasanaethau radioleg, sydd yn parhau i gynyddu, ond nid yw'r gwasanaeth yn ymgysylltu mewn modd cyson â staff a rhanddeiliaid i leihau galw amhriodol. Mae system archebu'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y claf ac yn rhoi apwyntiadau yn nhrefn blaenoriaeth yn ôl brys ac angen clinigol.
- 65 Mae prinder staff a phroblemau recriwtio parhaus o fewn yr adran radioleg yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn dibynnu'n ormodol ar feddygon locwm; mae gan yr adran radioleg lai o aelodau staff ar gyfer ei phoblogaeth na chyfartaledd Cymru, ond mae staff yn cynna ac yn adrodd ar nifer fwy o sganiau na chyfartaledd Cymru; er bod cyfraddau arfarnu staff a chynlluniau datblygu personol yn uchel, ceir prinder cyfleoedd hyfforddi i'r staff oherwydd pwysau ar amser gweithredol; ni chyflwynwyd data yn gysylltiedig â nifer y sganwyr fesul pen o'r boblogaeth, ond mae'r defnydd canrannol o'r sganwyr yn uwch o fewn y Bwrdd Iechyd na chyfartaledd Cymru.
- 66 Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd rhai camau rhagweithiol er mwyn rheoli'r gwasanaeth, fel uwchraddio'r system geisiadau, ceir gwendidau o ran cynllunio strategol ac ariannol: Nid oes strategaeth radioleg, er bod cynllun gweithredol clir wedi'i sefydlu sy'n trafod y rhan fwyaf o'r meysydd allweddol, ynghyd â chynllun ar gyfer y gweithlu. Fodd bynnag, mae'r trefniadau i gynnwys rhanddeiliaid mewn cynlluniau strategol yn anghyson.
- 67 Mae trefniadau'r strwythur arwain yn gymharol newydd, ac nid ydynt eto wedi cael digon o amser i aeddfedu, ac mae presenoldeb a chysondeb grwpiau radioleg allweddol yn cyfyngu ar y gallu i reoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Caiff materion radioleg eu huwchgyfeirio'n effeithiol i'r Bwrdd, ond ni chaiff radioleg ei gynrychioli ar y prif bwyllgorau na'r Bwrdd. Yn ogystal â hynny, er bod agweddau ariannol y gwasanaeth yn cael eu monitro'n rheolaidd, nid yw ei ddull o ganfod pwysau o ran costau ac arbedion wedi aeddfedu'n llawn.
- 68 Mae gan y gwasanaeth raglen effeithiol ar gyfer gosod cyfarpar newydd sy'n defnyddio ymagwedd tîm prosiect, ond nid yw'r rhaglen yn cydymffurfio â rhai o'r rheoliadau ar hyn o bryd. Mynegodd staff rwystredigaeth â'r systemau gwybodaeth radioleg cyfredol, er bod gwaith diweddar i gefnogi uwchraddio ceisiadau electronig yn gam cadarnhaol ymlaen. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn adolygu ac yn trafod perfformiad y gwasanaeth yn rheolaidd, ac fe gaiff pryderon o bwys eu huwchgyfeirio.

Mae'r Bwrdd Iechyd yng nghyfnod cynnar cynllun hirdymor i wella cynaliadwyedd ac arweinyddiaeth gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau. Mae lle o hyd i wella perfformiad yn erbyn amryw o dargedau, a chysondeb negeseuon practisau meddyg teulu ynghylch y gwasanaeth y tu allan i oriau

- 69 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn i fonitro gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau. Y mae yng nghyfnod cynnar cynllun hirdymor i foderneiddio'r gwasanaeth ac i gryfhau ei harweinyddiaeth, ond mae angen gwneud mwy o waith i gynnwys staff gweithredol wrth ddatblygu'r gwasanaeth.
- 70 Atgyfnerthodd y Bwrdd Iechyd ei drefniadau rheoli clinigol a gweithredol yn ddiweddar, ond mae canlyniadau ein harolwg yn awgrymu nad yw'r staff wedi profi manteision hynny eto. Mae trefniadau cynhwysfawr ar waith er mwyn monitro perfformiad a chraffu, ac mae'r staff yn hyderus bod gwersi'n cael eu dysgu yn sgil digwyddiadau a chwynion.

- 71 Mae'r Bwrdd lechyd wedi lleihau gwariant ar wasanaethau y tu allan i oriau mewn termau real a bydd amser yn cael ei neilltuo i ymdrin â'r or-ddibyniaeth bresennol ar feddygon teulu wrth gynllunio i ailfodelu'r gwasanaeth. Mae'r Bwrdd lechyd yn ceisio cynyddu'r gymysgedd o sgiliau sydd gan staff y tu allan i oriau, ond y mae'n dal i ddibynnu'n helaeth ar feddygon teulu ac yn ei chael hi'n anodd llenwi sifftiau. Mae angen iddo hefyd wella morâl a chefnogi hyfforddiant a datblygiad. Mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu mynd i'r afael â gwendidau yn ei fodel cyflogau meddygon teulu, ac er bod y gwariant fesul cysylltiad yn y gwasanaeth y tu allan i oriau yn gymharol uchel, mae cyfanswm y gwariant wedi gostwng mewn termau real.
- 72 Mae lle i wella perfformiad wrth dderbyn galwadau a ffonio'n ôl, ac o ran apwyntiadau brys, a lle eto i wella'r trefniadau ar gyfer cyfeirio o bractisau meddyg teulu i'r gwasanaethau y tu allan i oriau. Ceir mynediad da at feddygon teulu yn ystod oriau arferol, ac mae'r wybodaeth i'r cyhoedd am y gwasanaeth y tu allan i oriau yn dda ar y cyfan. Er hynny, mae lle i wella'r trefniadau cyfeirio ar wefannau a ffonau ateb practisau.
- 73 Mae perfformiad y Bwrdd lechyd wrth dderbyn galwadau yn waeth na chyfartaledd Cymru gyfan, ac nid yw'n cyrraedd targedau; nid yw'r Bwrdd lechyd yn cyrraedd targedau ar gyfer ffonio'n ôl; mae'r nifer a reolir ganddo drwy glywed-a-thrin yn gymharol fach; ac mae angen iddo wella'r hyfforddiant ar gyfer brysbennu dros y ffôn. O gymharu â gweddill Cymru, nid yw'r Bwrdd lechyd yn darparu apwyntiadau prydlon i gleifion 'brys' na chleifion 'brys mawr'.

Mae gan y Bwrdd lechyd gynlluniau datblygedig ar gyfer gwella cynllunio i ryddhau cleifion, ond mae'r perfformiad yn amrywio ac mae lle i wella'r polisi, y llwybrau a'r hyfforddiant ar ryddhau cleifion

- 74 Mae gan y Bwrdd lechyd gynlluniau clir ar gyfer gwella cynllunio i ryddhau cleifion, sydd yn seiliedig ar adolygiadau mewnol ac allanol. Mae ei bolisi rhyddhau, sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd, hefyd wedi'i ddatblygu'n rhesymol dda, er bod lle i wella. Mae llwybrau rhyddhau ar waith ond nid oedd tystiolaeth o ddogfennau i gefnogi staff i'w gweithredu.
- 75 Mae angen gwella hyfforddiant staff, ymwybyddiaeth o'r polisi rhyddhau ac amseroedd aros lolfeydd rhyddhau. Mae'r adnoddau rhyddhau penodol wedi'u harwain gan nyrsys, ond nid ydynt ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac fe geir pryderon ynghylch amseroedd aros hir mewn lolfeydd rhyddhau. Nid oes hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion ac mae'r ymwybyddiaeth o'r polisi rhyddhau yn wael. Fodd bynnag, mae'r staff yn gwybod o le i gael gwybodaeth am wasanaethau cymunedol.
- 76 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau craffu cryf, ond mae perfformiad yn amrywio ac mae lle i wella'r wybodaeth a adroddir wrth y bwrdd. Er bod strwythurau llywodraethu partneriaethau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd linellau atebolrwydd clir a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad.
- 77 Mae'r Bwrdd lechyd yn casglu data cynhwysfawr ar berfformiad, ac er bod aelodau'r bwrdd yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth, byddent yn elwa ar fwy o ddata ar lif cleifion. Mae'r data'n dangos bod perfformiad yn amrywio, ac er bod prosesau rhyddhau'n cael eu gwella, gallai fod yn rhy fuan i weld y manteision.

Ceir bylchau yn ymagwedd y Bwrdd Iechyd at gynllunio'r gweithlu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod angen iddo wella'i drefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu, ac mae wedi dechrau gwneud hynny. Fodd bynnag, mae angen cyflymu'r gwaith hwn er mwyn sicrhau bod y sefydliad mewn sefyllfa dda i wynebu heriau cyfredol a heriau'r dyfodol o ran y gweithlu

- 78 Nid yw cynlluniau cyfredol y gweithlu wedi'u halinio'n llawn â'r CTCl a gwaith byrdymor yw'r rhan fwyaf o'r gwaith cynllunio o hyd: nid yw cynllunio'r gweithlu wedi'i ymwreiddio'n gyson ar draws y sefydliad, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw staff. Nid yw 'cofnod rheolaeth sefydliad' y Bwrdd Iechyd na'i gyllideb wedi'u halinio'n dda, ac nid yw cynlluniau'r gweithlu wedi'u datblygu'n dda â phartneriaid; ac ni cheir cynllun hirdymor ar gyfer y gweithlu hyd yma.
- 79 Mae'n glir bod y Bwrdd Iechyd wedi ymroi i sefydlu cynlluniau cadarnach ar gyfer y gweithlu, ac y mae wedi dechrau cyflwyno trefniadau gwell ar gyfer cynllunio'r gweithlu: Mae'n deall y pwysau ar ei weithlu ac yn ymdrin â meysydd allweddol fel absenoldeb salwch a defnydd gormodol o staff asiantaeth a locwm. Mae CTCl 2016-17 - 2018-19 bellach yn cynnwys cyfeiriad at gynllunio'r gweithlu. Mae Ysbyty Athrofaol y Grange yn gatalydd ar gyfer y newid, a bydd angen cymysgedd wahanol o sgiliau ar ei gyfer; ac mae rheolwyr yn cydnabod bod angen cynllunio'r gweithlu yn well ac yn ymroi i gefnogi ymagweddau newydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd cyson wrth ymdrin ag argymhellion o waith archwilio blaenorol, er bod camau pwysig yn dal heb eu cyflawni mewn ambell faes allweddol

- 80 Yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed yn rhan o'm gwaith archwilio, fel y trafodwyd ym mharagraff 59, gwelais drwy fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd cyson wrth ymdrin ag argymhellion o waith archwilio blaenorol, er bod camau pwysig yn dal heb eu cyflawni mewn ambell faes allweddol. Yn ei adroddiad 'Adroddiad Orlhain Argymhellion y Rhaglen Archwilio Fewnol ac Allanol' a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2017, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd sylwadau ar gynnydd yn erbyn 29 o argymhellion, gan dynnu sylw'r pwyllgor at argymhellion a ddylai gael eu hepgor o'r trefniadau olrhain yn ei dyb ef.
- 81 Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf hefyd wedi cyflawni gwaith archwilio dilynol manwl er mwyn asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth ymdrin â phryderon ac argymhellion a godai o waith archwilio blaenorol mewn meysydd cyflenwi gwasanaeth penodol. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith dilynol hwn yn **Nangosyn 3**.

Dangosyn 3: cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio mewn meysydd gwasanaeth penodol

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r prif ganfyddiadau o'r archwiliadau dilynol.

Maes gwaith dilynol	Casgliadau a chanfyddiadau archwilio allweddol
Adolygiad o Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol - Asesiad o Gynnydd	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth ymateb i'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad o 2015, ond mae angen o hyd iddo wella'r modd y mae'n nodi risgiau clinigol, cyflymu'r broses o wella gwasanaethau a rheoli materion sy'n dod i'r amlwg mewn gwasanaethau penodol.
Adolygiad Dilynol o Archwiliadau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu - Asesiad o Gynnydd	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd mewn rhai meysydd, ond mae angen iddo gyflwyno gwelliannau pellach fel sicrhau cymeradwyaeth y Bwrdd a chyllid ar gyfer Rhaglen Amlinellol Strategol Gwybodeg 2016-21, gwella cywirdeb gwybodaeth a phrofi cynlluniau parhad busnes is-adrannol.

Mae trefniadau comisiynu cydweithredol wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig o ran y gwasanaethau ambiwlans argyfwng yng Nghymru; wrth i'r trefniadau aeddfedu, fodd bynnag, mae angen mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid

- 82 Yn fy adolygiad o drefniadau Cymru gyfan ar gyfer comisiynu gwasanaethau ambiwlans argyfwng canfûm fod y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Argyfwng (PGAA) wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig, fel datblygu model CAREMORE². Fodd bynnag, nid yw'r strwythurau na'r rolau i sicrhau atebolrwydd yn glir. Gwelais fod lle i egluro rolau'r PGAA, Llywodraeth Cymru a Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwllans mewn perthynas â pherfformiad a chyllid y gwasanaeth ambiwlans argyfwng, a moderneiddio'r gwasanaeth. Ac er bod ffurfio PGAA wedi cefnogi perchnogaeth ar wasanaethau ambiwlans argyfwng ar raddfa Cymru gyfan, nododd fy nhîm fod angen i'r PGAA wneud mwy i hyrwyddo gweddnewid gwasanaethau. Ar ben hynny, nid yw'r strwythur is-grwpiau, sydd yn sail i'r PGAA, yn ddigon eglur na'i ddibenion yn ddigon clir. Mae hynny'n amharu ar bresenoldeb staff byrddau iechyd a gallu'r is-grwpiau i gyfrannu mewn modd ystyrlon.
- 83 Mae partneriaid yn cefnogi'r model comisiynu ond mae cyflymder y byrddau iechyd wrth ysgogi'r newidiadau angenrheidiol i'w alluogi yn amrywio, ac nid yw'r model yn cynnwys ystyriaeth o weithgarwch rhanbarthol neu drawsffiniol. Canfûm yn fy ngwaith fod Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwllans Cymru (WAST) a byrddau iechyd ar y cyfan yn barod i gydweithio er mwyn gwella gwasanaethau ambiwlans. Er hynny, mae lefel y berchnogaeth ar berfformiad ambiwlansys argyfwng a moderneiddio llwybrau mewn byrddau iechyd yn amrywio, gyda'r prif

² Dull comisiynu wedi'i greu yng Nghymru yw model CAREMORE®. Mae ei nod masnach cofrestredig yn eiddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar ran GIG Cymru.

bwyslais ar gamau olaf y llwybr ambiwlans, fel trosglwyddo o'r ambiwlans. Adroddais fod WAST yn ymateb mewn modd priodol i gytundebau lunnir gan y PGAA. Serch hynny, mae'r graddau y mae byrddau iechyd yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn CAREMORE® yn amrywio, ynghyd â'u dealltwriaeth o'r gofynion hynny.

- 84 Canfûm drwy fy ngwaith fod trefniadau comisiynu yn sail i rai gwelliannau i'r gwasanaethau ambiwlans argyfwng. Mae cyflwyno'r model newydd ar gyfer ymateb clinigol yn cynorthwyo partneriaid i gyrraedd targedau perfformiad Llywodraeth Cymru, ac mae potensial am welliannau pellach o ran perfformiad yn sgil mentrau eraill y cytunwyd arnynt yn ddiweddar. Mae newidiadau a gynllunnir i wasanaethau a gwaith monitro perfformiad partneriaid bellach yn fwyfwy cyson â'r Llybr Gofal Cleifion Ambiwlan (y cyfeirir ato fel y model pum cam). Ond mae angen mwy o gysondeb ar draws y byrddau iechyd, ac mae'n rhy fuan i ddweud a yw hyn yn cael effaith. Ceir cyfres llawer gwell o fesurau, sydd hefyd yn ehangach, ac sy'n canolbwyntio ar weithgarwch a pherfformiad drwy'r Dangosyddion Ansawdd Ambiwlan. Fodd bynnag, nid yw partneriaid yn gwneud digon eto i ddeall canlyniadau a phrofiadau cleifion yn llawn wrth iddynt dderbyn gofal ambiwlans argyfwng.

Nid yw trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent

- 85 Wrth adolygu trefniadau cydweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol gyda'r Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, canfûm fod cydweithrediad effeithiol mewn perthynas â gwaith gwella iechyd yn ddibynol ar arweinyddiaeth gydsyniol, nad yw bob amser i'w gweld yn amlwg. Yn y system iechyd cyhoeddus gyffredinol, mae ystod eang o bobl a sefydliadau'n cyfrannu at ddiogelu a gwella iechyd a llesiant, ac at leihau anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru. Nid yw yr un sefydliad yn llwyr gyfrifol am sicrhau gwelliannau yn iechyd a llesiant y boblogaeth, ond ystyrir bod sefydliadau'n llwyddo yn hyn o beth os ydynt yn cydweithio'n effeithiol.
- 86 Efallai nad yw'n ddymunol pennu un arweinydd system, mae angen mwy o eglurder ynghylch rolau perthynol y gwahanol randdeiliaid o fewn y system. Drwy fy ngwaith, gwelais ddiffyg deialog ystyrion rhwng Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth), timau iechyd cyhoeddus lleol a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus ynghylch rolau a chyfrifoldebau perthynol, a fframwaith cytunedig sy'n trafod pa waith a gyflawnir orau ar y cyd.
- 87 Ni cheir unrhyw drefniadau effeithiol ar hyn o bryd i sicrhau bod yr adnoddau a ddyrannir i dimau iechyd cyhoeddus lleol yn cynnig gwerth am arian. Ni chynhelir cyfarfodydd rhwng yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus i drafod y defnydd o adnoddau er mwyn gwella iechyd a llesiant, a thrafod a ydynt yn creu'r budd a fwriadwyd. Drwy fy ngwaith hefyd gwelais ddiffyg dulliau cadarn o ddyrannu neu newid adnoddau timau iechyd cyhoeddus lleol. Yn lle hynny, cynhelir trafodaethau ad hoc wrth i swyddi gwag ddod i'r amlwg.
- 88 Wrth gyflawni fy ngwaith, gwelais fod trefniadau wedi'u sefydlu i helpu staff sy'n gweithio ar draws timau lleol yn broffesiynol, ond mae angen mwy o eglurder ynghylch sut y caiff hyn ei ddefnyddio i ddangos cymhwysedd proffesiynol ac i gamu ymlaen mewn gyrfa. Mae trefniadau newydd yn helpu i atgyfnerthu prosesau arfarnu a chynlluniau datblygu personol, ond mae angen gwneud mwy i asesu holl anghenion datblygu timau iechyd cyhoeddus lleol gyda'i gilydd.

- 89 Nid yw'r mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a thimau iechyd cyhoeddus lleol wedi'u datblygu'n ddigonol. Nid oes unrhyw ddull safonedig o rannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn yr oedd gwahanol gyfranwyr yn ei wneud ar raddfa leol a chenedlaethol. Yn fy ngwaith, gwelais ddiffyg trefniadau i gydgyssylltu gwaith a ddatblygir neu a gyflawnir yn lleol neu'n genedlaethol, ac i rannu gwybodaeth â'r un partneriaid cyffredin.
- 90 Yr wyf wedi nodi'r ymateb a gafwyd gan reolwyr i'm canfyddiadau, a baratowyd ar y cyd, a thrwy gydweithrediad rhwng yr Ymddiriedolaeth, y Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru. Rwy'n bwriadu cyflawni gwaith pellach yn 2018 i asesu'r cynnydd a wnaed i ymdrin â'r pryderon a nodwyd uchod.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Dangosyn 4: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2017.

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiadau archwilio ariannol	
Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol - Y Bwrdd Iechyd	Mai 2017
Barn ar y Datganiadau Ariannol - Y Bwrdd Iechyd	Mehefin 2017
Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol - Cronfeydd Elusennol a Ddelir mewn Ymddiriedaeth	Tachwedd 2017
Barn ar y Datganiadau Ariannol - Cronfeydd Elusennol a Ddelir mewn Ymddiriedaeth	Rhagfyr 2017
Adroddiadau archwilio perfformiad	
Gwasanaethau Radioleg	Mehefin 2017
Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans Argyfwng	Ebrill 2017
Gwasanaeth Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau	Mis Mawrth 2017
Trefniadau Cydweithredol ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Lleol	Hydref 2017
Adolygiad o Gynlluniau i Ryddhau Cleifion	Tachwedd 2017
Asesiad Strwythuredig 2017	Ionawr 2018
Adolygiad Dilynol o Archwiliadau TGCh - Asesiad o Gynnydd	Awst 2017
Adolygiad o Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol - Asesiad o Gynnydd	Mawrth 2017
Trosolwg diagnostig o Gynllunio'r Gweithlu	Chwefror 2018
Adroddiadau eraill	
Cynllun Archwilio 2017	

Dangosyn 5: gwaith archwilio perfformiad yn dal ar y gweill

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd.

Dangosir y rhain yn y tabl isod, ynghyd ag amcan o ddyddiadau cwblhau'r gwaith.

Adroddiad	Amcan o'r dyddiad cwblhau
Adolygiad o Ofal Sylfaenol	Haf 2018
Cronfa Gofal Integredig	Tachwedd 2018
Rheoli ystadau	Mai 2018

Atodiad 2

Y Ffi Archwilio

Yng Nghynllun Archwilio 2017, nodwyd y ffi archwilio arfaethedig o £412,146 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn cyfateb yn fras â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

Atodiad 3

Risgiau sylweddol wrth archwilio

Dangosyn 6: risgiau sylweddol wrth archwilio

Yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2017, nodwyd y risgiau sylweddol yn gysylltiedig ag archwilio ariannol ar gyfer 2017. Yn y tabl isod, rhestrir y risgiau hyn, a nodir sut yr ymdriniwyd â hwy yn rhan o'r archwiliad.

Risg archwilio o bwys	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
Mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod trafodion yn rheolaidd a chyfreithlon.	Bydd fy nhîm archwilio yn profi cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol sydd yn berthnasol i'r archwiliad er mwyn sicrhau bod trafodion yn fanwl gywir, yn rheolaidd a chyfreithlon.	Cynhaliwyd profion ar gofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol fel y cynlluniwyd, a chanfod eu bod yn gadarn. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o drafodion afreolaidd nac anghyfreithlon.
Ceir risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio 240.	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none">• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; ac• yn gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol a ganfyddir drwy'r gwaith archwilio nad ydynt, o bosib, yn rhan o fusnes arferol.	Gwaith archwilio wedi'i gwblhau fel y cynlluniwyd. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth fod rheolwyr yn diystyru rheolaethau.
Ceir risg o gamddatganiadau o bwys oherwydd twyll wrth gydnabod refereniw, felly ymdrinnir â hyn fel risg sylweddol yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio 240.	Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried ffrydiau incwm y Bwrdd Iechyd ac yn asesu a oes risg o gamddatganiad o bwys oherwydd twyll yn gysylltiedig â chydabod refereniw. Pan fyddwn yn penderfynu bod risgiau o'r fath yn bodoli, byddwn yn cynnal profion manwl.	Gwaith archwilio wedi'i gwblhau fel y cynlluniwyd. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o gamddatganiad o bwys oherwydd twyll wth gydnabod refereniw.

Risg archwilio o bwys	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Ar sail ein hadolygiad o adroddiadau ariannol y Bwrdd lechyd a'n trafodaethau ag uwch swyddogion, mae'n ymddangos yn debygol y bydd y Bwrdd lechyd yn gwario mwy nai ddyraniad adnoddau referniw. Cafwyd gwelliant sylweddol o ryw £7.8 miliwn wrth edrych ar y sefyllfa gronnus ym mis 9 o gymharu â mis 8. Fodd bynnag, mae'n dal i ddangos diffyg o £4.7 miliwn yn y flwyddyn hyd hynny ac yn rhagweld diffyg diwedd blwyddyn o £4.1 miliwn. Gan hynny, y mae perygl gwirioneddol i'r Bwrdd lechyd wario mwy na'i ddyraniad adnoddau referniw blynyddol.</p> <p>O dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, daeth yr arfer o bennu terfynau adnoddau blynyddol i ben o 1 Ebrill 2014. Yn lle hynny, daeth 2014-15 a 2015-16 yn ddwy flynedd gyntaf 'drosiannol' o dan y ddyletswydd ariannol statudol newydd i beidio â gwario mwy na therfyn adnoddau tair blynedd treigl. Yn unol â hynny, ni allai'r Bwrdd lechyd fod wedi mynd heibio terfyn adnoddau statudol yn yr un o'r ddwy flynedd unigol.</p> <p>O flwyddyn ariannol 2016-17 ymlaen, mae darpariaethau Deddf 2014 yn ei gwneud hi'n ofynnol imi gymharu gwariant cronus y Bwrdd lechyd yn y flwyddyn gyfrifo a'r ddwy flynedd flaenorol a'r terfynau tair blynedd cyfatebol ar adnoddau referniw a chyfalaf.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Bwrdd lechyd ym mlwyddyn ariannol 2016-17, a hefyd y sefyllfa gronnus yn y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2017. Byddai'r adolygiad hwn hefyd yn ystyried effaith unrhyw gamddatganiadau perthnasol heb eu cywiro dros y tair blynedd hynny.</p> <p>Os na fydd y Bwrdd lechyd yn bodloni'r terfynau tair blynedd ar adnoddau referniw ac/neu gyfalaf, byddwn yn disgwyl i'm barn ynghylch rheoleidd-dra datganiadau ariannol 2016-17 fod yn amodol. Byddwn hefyd yn disgwyl cyflwyno adroddiad sylweddol ar y datganiadau er mwyn esbonio'r sail ar gyfer y farn amodol, a'r amgylchiadau a arweiniodd at y farn honno.</p>	<p>Cadarnhaodd fy ngwaith archwilio fod y Bwrdd lechyd wedi bodloni ei ddyraniad adnoddau referniw blynyddol ac wedi cyrraedd ei darged ariannol i glirio ei gostau.</p>

Risg archwilio o bwys	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Mae'r pwysau ariannol cyfredol ar y Bwrdd lechyd, yn gysylltiedig â'i wariant refeniw a chyfalaf, a'i wariant arian parod, yn cynyddu'r risg y gallai barn ac amcangyfrifon rheolwyr ddangos tuedd mewn ymdrech i adrodd o fewn y terfynau ariannol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn nodi'r rhannau hynny o'r datganiadau ariannol sy'n dueddol o gynnwys rhagfarn wrth adrodd, ac yn cynnal profion archwilio manwl lle bo'n briodol.</p>	<p>Profion archwilio manwl wedi'u cynnal fel y cynlluniwyd, a dim tystiolaeth o duedd wrth adrodd.</p>
<p>Ceir risg yn gysylltiedig â chyfrifo a datgelu perfformiad talu'r Bwrdd lechyd yn erbyn y targedau a osodir ym Mholisi Taliadau Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio datgeliadau Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus, ac yn ystyried unrhyw effaith y gallai pwysau ariannol ei chael ar darged y Bwrdd lechyd. Bydd peth o'r gwaith archwilio hwn yn cael ei gyflawni gan archwilwyr cydwasanaethau'r GIG.</p>	<p>Gwaith archwilio wedi'i gwblhau fel y cynlluniwyd. Adroddwyd ein canfyddiadau yn ein hadroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ym mis Mehefin 2017, ynghyd â'r posibilrwydd y gallai perfformiad fod wedi'i orddatgan.</p>
<p>Mae'r amserlen ar gyfer llunio ac ardystio'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol yn feichus. Blwyddyn ariannol 2016-17 yw'r ail flwyddyn o weithredu adroddiadau teiran Trysorlys EM sy'n seiliedig ar: Adroddiad ar Berfformiad, Adroddiad Atebolrwydd a Datganiadau Ariannol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu gofynion a logisteg 2016-17, ac mae gofynion eleni wedi'u nodi yn nrafft ymgynghori cyfredol Llawlyfr Cyfrifon 2016-17.</p> <p>Bydd angen i'r Bwrdd lechyd sefydlu trefniadau priodol i baratoi'r adroddiad atebolrwydd ar yr un pryd â'r datganiadau ariannol a sicrhau bod papurau gwaith digonol yn cael eu darparu'n brydlon i'w harchwilio.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio'n agos â staff y Bwrdd lechyd i fonitro cynnydd, ac yn ceisio datrys unrhyw faterion yn gysylltiedig ag amseru cyn gynted ag sy'n bosibl fel bo modd bodloni'r amserlen ar gyfer ardystio cyfrifon.</p> <p>Datgelir Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Bwrdd lechyd yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Mae'n ofynnol cynnwys adolygiad o'r datganiad llywodraethu yn rhan o'm harchwiliad, er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM a Gweinidogion Cymru. Yn rhan o'm gwaith archwilio rwyf yn adolygu'r datganiad er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â chanlyniadau archwilio, a'm gwybodaeth am y Bwrdd lechyd a'm dealltwriaeth ohono.</p>	<p>Cyflawnwyd gwaith archwilio yn unol â'r hyn a gynlluniwyd a buom yn gweithio'n agos â staff y Bwrdd lechyd i fonitro cynnydd, cytuno ar amserlen a sicrhau bod terfynau amser yn cael eu bodloni.</p>

Risg archwilio o bwys	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Caiff y cyfrifon blynyddol eu llunio'n unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a Llawlyfr Cyfrifon y GIG. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael dealltwriaeth lawn o'r gofynion hyn, gan ymateb i newidiadau a sicrhau y nodir ac yr ymdrinnir â risgiau a materion mewn modd priodol.</p> <p>Dyma rai meysydd risg penodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amcangyfrifon, yn enwedig ar gyfer darparu gofal iechyd parhaus a gwariant ar ofal sylfaenol; • datblygiadau cyfalaf, gyda gofynion cyfrifyddu cymhleth; • trafodion sylweddol â phartion cysylltiedig; • ystyried a chymeradwyo contractau gwerth mwy na £1 miliwn; a • chywirdeb a chyflawnder yr Adroddiad ar Daliadau, gan gynnwys pecynnau ymadael a newidiadau i Aelodau Gweithredol yn ystod y flwyddyn. 	<p>Bydd fy nhîm archwilio'n archwilio'r datganiadau ariannol gan ganolbwyntio'n arbennig ar y meysydd risg hyn, drwy gynnal profion â ffocws.</p>	<p>Profion archwilio â ffocws wedi'u cyflawni fel y cynlluniwyd ym mhob rhan berthnasol o'r datganiadau ariannol, heb ganfod unrhyw faterion.</p>

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun.: 029 2032 0660

e-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Welsh Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Phone: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

e-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales